Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yn**

**Cyngor Gwynedd**
**Swyddfa'r Cyngor**
**Stryd y Jêl**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

**Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/07/2013**

## Cyd-destun

Mae Gwynedd yng ngogledd-orllewin Cymru.  Cyfanswm y boblogaeth yw 121523.

Yng Ngwynedd, dywed 65.4% o bobl dros dair oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19%.

Y raddfa gyflogaeth yn Gwynedd oedd 69.5% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 67.3% (flwyddyn orffennodd 31 Rhagfyr 2012).  Roedd 14.5% o blant yn byw mewn cartrefi heb waith.

O'r boblogaeth weithio yn Gwynedd, nid oes cymwysterau gan 8.8%, ac mae hynny'n is na chyfartaledd Cymru, sef 10.6%.

13.6% yw canran y disgyblion oed ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny'n is na 19.3% yn genedlaethol.  Y lefel cymhwyster hon yw'r 4ydd isaf yng Nghymru (CYBLD 2012).  Dim ond 4% o'r 75 o ardaloedd yng Ngwynedd sydd bellach yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC 2011).

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 195 o blant yn derbyn gofal gan awdurdod Gwynedd. Roedd 50 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1.9% o'r boblogaeth, ac mae hynny'n is na chyfartaledd Cymru, sef 4.2% (flwyddyn orffennodd 31 Rhagfyr 2012).

### Cyd-destun ariannol

Gosododd y Cyngor gyllideb o £220.6m (heb gyfrif grantiau) ar gyfer ei holl wasanaethau yn 2012-2013, tua 2.2% yn uwch nag Asesiad Gwariant Safonol Llywodraeth y Cynulliad.

Oddi mewn i'r gyllideb hon, gosodwyd cyllideb addysg o £87m.  Mae hyn gyfwerth â £5,216 y disgybl, sef y trydydd uchaf ymhlith awdurdodau Cymru.  Bu cynnydd o 0.3%, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, yn y gyllideb addysg o'i gymharu â chyllideb 2011-2012.

Er mai bach oedd y cynnydd yn y gyllideb addysg, gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyllidebau datganoledig ysgolion yn 2012-2013 oherwydd datganoli arian a reolwyd o'r canol yn y gorffennol ac oherwydd cynnydd mewn grantiau.  O ganlyniad, cododd cyllidebau ysgolion cynradd fesul disgybl i'r trydydd uchaf yng Nghymru ar gyfartaledd, tra bod cyllidebau ysgolion uwchradd yr ail uchaf yng Nghymru.  Dengys ffigyrau Llywodraeth Cymru fod yr awdurdod bellach yn datganoli i'w ysgolion 80.4% o'r holl wariant arnynt.  Bu cynnydd arwyddocaol yn y gyfradd ddatganoli ac mae bellach yn agos at gyfartaledd awdurdodau Cymru, sef 81%.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Digonol**

Mae Gwasanaethau Addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- nid yw perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg mewn awdurdodau eraill ledled Cymru;
- mae presenoldeb mewn gormod o ysgolion uwchradd yn y chwarteli isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- nid yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer cynorthwyo a herio ysgolion yn ddigon cadarn, ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau;
- nid yw'r awdurdod wedi gwneud digon o gynnydd wrth reoli a llywodraethu diogelu; ac
- mae nifer a chyfran y lleoedd dros ben yn ysgolion Gwynedd, yn y sector cynradd a'r sector uwchradd fel ei gilydd, yn parhau ymhlith yr uchaf yng Nghymru.

Fodd bynnag:

- yng nghyfnod allweddol 3, perfformiad yn erbyn y dangosydd pwnc craidd yw'r gorau yng Nghymru;
- yn 2012, ni wnaeth yr un dysgwr yng Ngwynedd adael yr ysgol heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig. Dyma'r perfformiad gorau yng Nghymru yn erbyn y dangosydd hwn;
- mae polisi iaith yr awdurdod yn llwyddiannus o ran sicrhau dilyniant da yng nghyfran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg mamiaith ar draws y cyfnodau allweddol, ac mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i gael graddau TGAU A*-C mewn Cymraeg mamiaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4;
- mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi llwyddo'n dda i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni unedau neu gymwysterau achrededig, ac o ran hyrwyddo prentisiaethau, entrepreneuriaeth a llwybrau dysgu;
- mae nifer o bartneriaethau sefydledig yn cyfrannu'n helaeth at y profiadau sy'n cael eu cynnig i blant a phobl ifanc, gan gynnwys partneriaethau o fewn y cyngor a phartneriaethau'r cyngor gyda'r bwrdd iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau cymorth ieuenctid a darparwyr addysg a hyfforddiant; ac
- mae arweinyddiaeth ariannol gorfforaethol yr awdurdod yn gadarn. Mae'r awdurdod yn rheoli adnoddau yn dda er mwyn delio â gostyngiadau yn ei gyllideb refeniw.

**Gallu i wella: Digonol**

Mae rhagolygon gwella'r cyngor yn ddigonol oherwydd:

- hyd at yn ddiweddar, mae arweinwyr corfforaethol ac aelodau etholedig wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â nifer o feysydd allweddol i'w gwella ac i sicrhau

cynnydd priodol ar draws gwasanaethau addysg yr awdurdod ar gyfer plant a phobl ifanc; ac

- ar lefel adrannol, mae cynllunio gwasanaethau yn wan, ac mae diffyg ffocws ar ddeilliannau mesuradwy.

Fodd bynnag:

- mae deiliad y portffolio, y prif swyddog addysg ac uwch swyddogion y cyngor yn deall cryfderau a gwendidau gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Maent wedi dangos parodrwydd i wneud penderfyniadau anodd mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion a chymryd camau pendant i weithredu yn unol â'u hymrwymiad i wella safonau;
- pan mae'r awdurdod wedi nodi meysydd i'w gwella ac wedi mabwysiadu'r rhain fel 'prosiectau gweddnewid' corfforaethol, mae trefniadau cynllunio manwl, gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl a chynnydd amlwg;
- mae strwythur llywodraethu newydd y cyngor wedi galluogi'r swyddogion i gadarnhau penderfyniadau a gweithredu yn fwy amserol;
- mae'r trefniadau craffu newydd wedi gwella gwaith a dylanwad y pwyllgor craffu a'r cyngor llawn. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi dangos ei fod yn gallu hyrwyddo gwelliant mewn meysydd blaenoriaeth; ac
- mae'r awdurdod wedi sicrhau cynnydd llawn neu gynnydd priodol o leiaf mewn perthynas â phob un o'r argymhellion a wnaed yn arolygiadau blaenorol Estyn.

## Argymhellion

A1 Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd

A2 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael yn fwy cadarn

A3 Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio

A4 Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd

A5 Gwella ansawdd hunanarfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr adran addysg

A6 Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Gwynedd yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn 50 diwrnod o dderbyn yr adroddiad. Bydd Estyn yn monitro unrhyw gynnydd yn yr argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae cyfran y dysgwyr yng Ngwynedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhlith yr isaf yng Nghymru (4ydd). Pan ystyrir y lefelau amddifadedd isel hyn, mae perfformiad yn ganolig yn yr ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion uwchradd yn tanberfformio. Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 ychydig yn well na chyfartaledd Cymru hefyd. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaledd Cymru ond nid oes digon o ddysgwyr yn cyflawni'r lefel uwch. Yng nghyfnod allweddol 3, canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yw'r gorau yng Nghymru. Fodd bynnag, ni wnaeth perfformiad o ran y mwyafrif o'r dangosyddion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wella gymaint â gweddill Cymru yn 2012.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim ar gyfer 2012, dim ond canolig yw perfformiad ysgolion cynradd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae perfformiad yn dda yng nghyfnod allweddol 3, gyda hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf, heb yr un ysgol yn y chwarter isaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn is na'r cyfartaledd at ei gilydd, gyda gormod o ysgolion yn y chwarter isaf o ran y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion. Fel hyn y bu hi dros y pedair blynedd diwethaf.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod meincnodau ar gyfer perfformiad awdurdod yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae Gwynedd wedi bodloni meincnod cyfnod allweddol 3 bob blwyddyn am y pedair blynedd diwethaf, a phedwar o'r wyth meincnod posibl yng nghyfnod allweddol 4. Nid yw wedi bodloni'r meincnodi ar gyfer trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg yn unrhyw un o'r pedair blynedd diwethaf.

Yn 2012, ni wnaeth yr un dysgwr yng Ngwynedd adael yr ysgol heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig. Hwn yw'r perfformiad gorau yng Nghymru yn erbyn y dangosydd hwn. Yn 2012, roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Yn gyffredinol, mae grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni ar eu lefelau disgwyliedig neu'n well.

Mae'r awdurdod wedi cyflwyno prawf darllen ar draws pob un o'i ysgolion. Mae'r profion hyn yn dangos bod dysgwyr at ei gilydd yn perfformio ychydig yn well mewn Cymraeg na Saesneg, ac nad yw dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a bechgyn yn perfformio gystal ag eraill. Ar ddiwedd addysg gynradd, mae tri chwarter o ddysgwyr yn llythrennog weithredol. Mae hyn fwy neu lai tua'r cyfartaledd o gymharu ag awdurdodau eraill.

Mae nifer y rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg mamiaith yn uchel o gymharu ag awdurdodau eraill. Ceir dilyniant da mewn Cymraeg mamiaith rhwng y cyfnodau allweddol, ac mae hwyrddyfodiaid i addysg gyfrwng Cymraeg yn gwneud cynnydd da iawn wrth adael darpariaeth ddwys tymor byr.

Mae safonau yn dda ar draws y cyfnodau allweddol, ac mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r lefelau uwch yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i ennill gradd A*-C mewn Cymraeg mamiaith ar lefel TGAU ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae llawer o bobl ifanc sy'n cael cymorth gan y gwasanaeth ieuenctid yn cyflawni'n dda o ran ystod eang o gymwysterau nad ydynt yn rhai ffurfiol.

**Lles: Digonol**

Mae dysgwyr yn cyfranogi'n dda mewn ystod o weithgareddau sy'n cyfrannu at wella'u lles. Mae plant a phobl ifanc yn datblygu'u dealltwriaeth o bwysigrwydd meithrin agweddau diogel ac iach yn dda drwy amrywiaeth o brosiectau.

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc Gwynedd mewn rhaglenni datblygu chwaraeon cenedlaethol ymhlith yr uchaf yng Nghymru yn erbyn pob mesur.

Mae presenoldeb disgyblion yn ysgolion cynradd Gwynedd yn dda, ac yn cymharu'n dda ag awdurdodau tebyg, gyda thraean o ysgolion yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2011–2012, roedd presenoldeb yn hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae pedair ysgol wedi bod yn y chwarter isaf am y pedair blynedd diwethaf, ac un ysgol am y tair blynedd diwethaf. Mae hwn yn ddiffyg pwysig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n agored i niwed yn gyson dda.

Mae cyfradd gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn lleihau dros y tair blynedd diwethaf, er y bu cynnydd sylweddol yn 2011-2012. Roedd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac roedd gwaharddiadau o chwe niwrnod neu fwy yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae nifer gyfartalog y diwrnodau a gollir yn sgil gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy uchel, ac nid yw'n cymharu'n dda ag awdurdodau eraill yng Nghymru.

Mae canran y rhai yn gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2012 yn ia na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae cyflymder y gostyngiad dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn arafach na chyfartaledd Cymru. Mae canran y bobl ifanc sy'n aros mewn addysg amser llawn ôl-16 wedi cynyddu'n sylweddol yn 2012 ac mae uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn nifer o fforymau a moddau eraill i hyrwyddo cyfleoedd iddynt fynegi'u barnau ar lefel gymunedol a lefel sirol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Anfoddhaol**

Mae'r awdurdod wedi bod yn araf yn herio tanberfformio mewn ysgolion. Nid yw wedi defnyddio'i ystod lawn o bwerau i fynd i'r afael â'r diffyg cynnydd mewn ysgolion sy'n tanberfformio, hyd yn oed ar ôl i'r ysgolion hyn gael cymorth. O ganlyniad, mae Estyn wedi nodi bod angen gweithgarwch dilynol ar dros hanner yr ysgolion a arolygwyd ers Medi 2010. Mae chwech ysgol yn y categori o fod angen gwelliant sylweddol.

Erbyn hyn, mae gan yr awdurdod gytundeb partneriaeth gyda'i ysgolion sy'n arwain at ddarparu cymorth a her wahaniaethol, yn seiliedig ar anghenion ysgolion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith swyddogion yn gwbl effeithiol, ac o ganlyniad, mae ansawdd cymorth a her yn anghyson. Mewn lleiafrif o achosion lle mae swyddogion yn herio'n effeithiol, mae effaith amlwg ar safonau addysgu, ansawdd yr hunanasesu ac mae deilliannau disgyblion yn gwella. Mewn ychydig o achosion, mae'r gwaith hwn wedi cynorthwyo lleiafrif o ysgolion gwannach i'w helpu i wella.

Mae gweithdrefnau addas ar waith ar gyfer dadansoddi perfformiad ysgolion, sy'n galluogi swyddogion i nodi anghenion a thanberfformiad yn briodol. Rhoddir ystod helaeth o gymorth cwricwlwm i ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod bob amser yn gwneud y defnydd gorau o ddata perfformiad i dargedu'r cymorth hwn yn ddigon effeithiol.

Mae safon adroddiadau swyddogion ar gynnydd ysgolion uwchradd yn gyson dda. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adroddiadau hyn yn anghyson yn y sector cynradd. Mae trefniadau addas gan yr awdurdod ar gyfer datblygu rôl penaethiaid, rheolwyr canol, uwch arweinwyr a llywodraethwyr. Fodd bynnag, mae arweinyddiaeth wan wedi bod yn destun pryder mewn lleiafrif o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y cylch hwn, ond mae'r awdurdod wedi bod yn rhy araf yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Nid yw'r arweinwyr ysgol hyn yn ymateb yn ddigon cadarnhaol i'r trefniadau hyn, ac mae'r awdurdod wedi bod yn amharod i fynd i'r afael â'r mater hwn a dal y penaethiaid hyn i gyfrif.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi rhoi ffocws gwell ar ddatblygu rolau llywodraethwyr wrth nodi a mynd i'r afael ag achosion penodol o danberfformio. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith ar ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Da**

Mae dealltwriaeth glir gan yr awdurdod o'i gryfderau a meysydd i'w datblygu o ran ei anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae wedi gwneud nifer o newidiadau pwysig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys cau'r unedau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cyffredinol a datblygu tîm o athrawon arbenigol sy'n cynorthwyo disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd. O ganlyniad i'r newid hwn, mae mwy o ddisgyblion yn cael cymorth arbenigol erbyn hyn, a gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu eu hysgolion lleol.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i nodi ac asesu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae ganddo feini prawf clir ar gyfer cael mynediad at gymorth ychwanegol, ac mae ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau o ran mynd i'r afael ag anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, cyn gwneud cais am gymorth ychwanegol, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu tystiolaeth gadarn o ymyriadau y maent wedi'u rhoi ar waith, ac effaith y rhain ar ddeilliannau disgyblion. Yn ogystal, mae asesiadau amlasiantaeth effeithiol o blant ifanc yn sicrhau y gellir rhoi cymorth ac adnoddau priodol yn eu lle cyn gynted â'u bod yn dechrau addysg amser llawn.

Mae canran y datganiadau a gwblhawyd o fewn graddfeydd amser statudol yn gyson uchel. Mae nifer yr apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn isel. Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i rieni plant sy'n destun asesiad statudol. Caiff rhieni fynediad i hyfforddiant perthnasol, ac mae'r awdurdod yn gweithio'n dda iawn gydag asiantaeth gymorth SNAP Cymru i ofyn am farnau rheini, drwy holiaduron a grwpiau ffocws. Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda'i phartneriaid i ddarparu cymorth arbenigol effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ddisgyblion ag anghenion cymhleth o'r gwasanaethau allgymorth sefydledig. Mae ysgolion a rhieni yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau hyn yn fawr.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i ddarparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i ysgolion. Hefyd, mae ysgolion yn elwa ar hyfforddiant sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion penodol. Mae'r awdurdod yn defnyddio data ADY yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion, monitro effaith ymyriadau ar ddeilliannau disgyblion ac i herio ysgolion. Mae'n dadansoddi data yn dda, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio gwasanaethau. Mae'r awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol yn dda mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

### Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol

Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn cydweithredu'n dda i gynllunio a chyflwyno rhaglen o wasanaethau i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed. Trwy raglen o weithgareddau wedi'u targedu, rhoddir cyfleoedd da i blant a phobl ifanc i wella'u medrau, eu hymddygiad a'u hiechyd, ac yna i baratoi eu hunain ar gyfer byd gwaith. Er enghraifft, mae Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd yn gweithio'n dda i godi ymwybyddiaeth a darparu gweithgareddau i wella iechyd a ffitrwydd plant a phobl ifanc.

Mae swyddogion yn yr adran addysg yn gweithio'n dda gyda bron pob un o'r ysgolion i wella ymddygiad disgyblion a lleihau gwaharddiadau. Defnyddiant ddata yn effeithiol i nodi lle mae angen ymyrraeth. Er enghraifft, mae strategaeth bwrpasol ar waith mewn un ysgol uwchradd sydd wedi gweld nifer uchel o waharddiadau yn hanesyddol. Mae hyn wedi arwain at welliannau cadarnhaol tymor byr, er na wnaeth yr awdurdod roi'r mesurau hyn ar waith yn ddigon cyflym.

Mae sefydliadau ac asiantaethau gwahanol yn defnyddio data yn dda i gynllunio'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc sy'n agored i niwed, ond nid ydynt bob amser yn

monitro ac yn arfarnu'r cynlluniau hyn yn ddigon trwyadl i fesur eu heffaith ar les unigolion. Felly, nid ydynt yn gwybod a yw'r mentrau hyn yn effeithiol.

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela yn cydweithredu'n effeithiol gydag ysgolion uwchradd y sir, ac mae'n darparu darpariaeth a gwasanaeth pwrpasol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi dechrau mynd i'r afael â her gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Bellach, mae proses glir, systematig wedi'i chytuno gydag ysgolion sydd wedi arwain at ddeilliannau cychwynnol cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â phresenoldeb cyson isel mewn ychydig o'i ysgolion uwchradd.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi llwyddo'n dda i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi llwyddo yn dda o ran cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni unedau neu gymwysterau achrededig, ac o ran hyrwyddo prentisiaethau, entrepreneuriaeth a llwybrau dysgu. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu yn dda, a chaiff dysgwyr eu cefnogi'n effeithiol.

Mae'r awdurdod wedi gweithredu cynllun sydd wedi llwyddo i ddod â phartneriaid ynghyd i dargedu dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae gweithwyr ieuenctid, swyddogion lles ac anogwyr dysgu yn cynnig cymorth da i wella presenoldeb, cymhelliant a chyrhaeddiad pobl ifanc.

Mae trefniadau priodol gan yr awdurdod i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn gadarn mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth glir o weithdrefnau i sicrhau bob pawb yn deall rolau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer amddiffyn a diogelu plant ar lefel gorfforaethol a rhwng adrannau yn yr awdurdod lleol. O'r herwydd, nid yw trefniadau diogelu'r awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol ac maent yn destun pryder.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Mae nifer a chyfran y lleoedd dros ben yn ysgolion Gwynedd, yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd, yn parhau ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Fe wnaeth y sefyllfa hon ddirywio dros y blynyddoedd diwethaf, a rhagwelir gostyngiad pellach yn niferoedd disgyblion uwchradd. Mae cyflymder newid i fynd i'r afael â'r materion hyn wedi bod yn araf, ac nid yw'r cyngor wedi rhoi digon o flaenoriaeth i ad-drefnu ysgolion.

Fodd bynnag, ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn yn fwy trwyadl a gwneud penderfyniadau anodd i ad-drefnu lleoedd mewn ysgolion. Mae swyddogion wedi datblygu methodoleg gynhwysfawr i arfarnu digonolrwydd ysgolion yr awdurdod ac i lywio dewisiadau ar gyfer ad-drefnu darpariaeth ar gyfer y dyfodol. Mae hyrwyddo safonau yn faen prawf allweddol yn y fframwaith hwn wrth ystyried ad-drefnu ysgolion, ac mae wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor. Mae Rhaglen Band A Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif y Cyngor yn cynnwys prosiectau ad-drefnu a buddsoddi. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwybodaeth

a data da am gyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol, ac mae hyn yn galluogi'r Cyngor i flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf yn briodol.

Mae cyflenwad digonol o leoedd meithrin ar draws y sir, mewn ysgolion ac mewn lleoliadau nas cynhelir wedi'u comisiynu, a chaiff hyn ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau mynediad i bawb. Mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda ar y cyfan. Mae'r cyngor yn arfarnu safon y ddarpariaeth yn dda ar draws yr holl leoliadau meithrin, yn cefnogi staff ac yn delio'n ddi-oed ag achosion o danberfformio. Cynigir ystod dda o wybodaeth i rieni, gofalwyr a theuluoedd gan adnodd Gwynedd Ni.

Mae pobl ifanc yn elwa ar ystod briodol o wasanaethau cymorth ieuenctid, sy'n datblygu drwy weithredu cynllun strategol pum mlynedd. Mae'r gwasanaeth wedi comisiynu darpariaeth yn briodol o'r sector annibynnol. Mae'n integreiddio'n dda gydag ysgolion, ac yn manteisio ar gyfleoedd i dargedu cymorth i bobl ifanc unigol drwy'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n dda ochr yn ochr â'r adran adfywio economaidd i hyrwyddo prentisiaethau, entrepreneuriaeth a llwybrau dysgu sydd nid yn unig yn adlewyrchu diddordebau personol, ond yn adlewyrchu anghenion y farchnad lafur leol hefyd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinwyr corfforaethol ac aelodau etholedig wedi bod yn araf yn nodi nifer o feysydd allweddol i'w gwella ac i sicrhau cynnydd priodol ar draws gwasanaethau addysg yr awdurdod ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae strwythur llywodraethu'r cyngor wedi newid, gan alluogi'r cyngor i gadarnhau penderfyniadau a gweithredu yn fwy amserol. Hefyd, mae trefniadau craffu newydd wedi mireinio gwaith a dylanwad y pwyllgor craffu a'r cyngor llawn.

Ar hyn o bryd, mae dealltwriaeth glir gan yr arweinwyr corfforaethol ac aelodau etholedig allweddol o'r heriau, y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn yr awdurdod lleol. Hefyd, mae ewyllys wleidyddol gryfach i wneud penderfyniadau anodd er mwyn hyrwyddo gwelliant, fel y gwelir o'r ad-drefnu ysgolion cynradd yn ddiweddar yn ne'r sir.

Pan mae'r awdurdod wedi nodi meysydd i'w gwella ac wedi mabwysiadu'r rhain fel 'prosiectau gweddnewid' corfforaethol, ceir trefniadau cynllunio manwl a gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl. Mae hyn wedi arwain at gynnydd priodol o ran ailstrwythuro ysgolion a thargedu cymorth ar gyfer teuluoedd sy'n agored i niwed. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi rhoi arweinyddiaeth strategol a gweithredol gadarn i'r egwyddor o hybu'r Gymraeg mewn addysg ac yn y gymuned, ac mae wedi pennu disgwyliadau uchel yn ei bolisi iaith. Ceir dilyniant da yn y ganran sy'n dilyn Cymraeg mamiaith ar draws y cyfnodau allweddol, a chefnogwyd hyn gan weithredu effeithiol iawn mewn canolfannau iaith i alluogi disgyblion gaffael medrau iaith priodol.

Fodd bynnag, ar wahân i'r blaenoriaethau gweddnewid hyn, mae cynllunio yn wan ar lefel adrannol. Er enghraifft, mae diffyg ffocws ar ddeilliannau mesuradwy, a manylion annigonol yng nghynlluniau'r adran addysg i alluogi arweinwyr a rheolwyr i

ddwyn swyddogion i gyfrif. O ganlyniad, mae gwaith pwysig, gan gynnwys gwella ysgolion, wedi llithro.

Mae’r awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau comisiynu effeithiol, yn fewnol ac yn allanol, ar gyfer adnoddau penodol, er enghraifft, i ddatblygu ei gymorth ar gyfer teuluoedd sy’n agored i niwed. Mae’r broses wedi gwella atebolrwydd, ac mae’r gweithdrefnau hyn bellach yn ganolog i bob agwedd ar waith y cyngor. Mae’r prif swyddog addysg ac uwch swyddogion corfforaethol y cyngor wedi arwain y newid diwylliant hwn, ac wedi cymryd camau pendant i weithredu ar yr ymrwymiad i wella safonau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae datganiad polisi priodol gan y cyngor, gydag arweiniad clir ar egwyddorion a gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae’r polisi yn rhoi trosolwg o’r prosesau hunanarfarnu, ac mae’r rhain yn galluogi aelodau etholedig ac uwch reolwyr i wneud defnydd mwy effeithiol o ddangosyddion perfformiad er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd, ac i gymryd camau unioni priodol.

Mae cynllunio strategol yn sicrhau erbyn hyn bod yr awdurdod yn canolbwyntio ar wella deilliannau. Mae hyn wedi galluogi swyddogion i hyrwyddo gwelliant mewn meysydd allweddol, er enghraifft, y rhaglen newid ad-drefnu ysgolion. Fodd bynnag, datblygiad diweddar fu hwn.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cynnig arfarniad cytbwys o holl waith y cyngor mewn perthynas â’r fframwaith arolygu. Hyd at yn ddiweddar, fodd bynnag, nid yw prosesau hunanarfarnu parhaus y cyngor wedi bod yn groyw ac yn ddigon clir i nodi cryfderau a gwendidau yn gyson ar draws gwasanaethau, er enghraifft, mewn meysydd yn ymwneud â gwella ysgolion a diogelu.

Ar lefel gorfforaethol, mae gweithdrefnau priodol gan yr awdurdod ar gyfer rheoli perfformiad swyddogion unigol. Yn ddiweddar, sefydlodd yr awdurdod banel cyflawni sy’n galluogi’r aelodau etholedig i gynnal trafodaethau rheolaidd gydag uwch swyddogion ynglŷn â sut mae’n bodloni ei flaenoriaethau.

Nid yw’r adran addysg yn cydymffurfio’n llawn â gweithdrefnau corfforaethol, ac nid yw rhai agweddau allweddol wedi’u datblygu’n ddigonol, fel arfarnu perfformiad yn erbyn disgwyliadau a phennu camau gweithredu a fydd yn arwain at welliant. O ganlyniad, mae bylchau yn y prosesau hunanarfarnu a chynllunio gweithredol. Mae’r diffygion hyn yn atal swyddogion adrannol rhag deall effaith lawn eu gwaith, a rhag pennu blaenoriaethau priodol.

Mae’r awdurdod wedi cwblhau camau gweithredu neu wedi gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â phob un o’r argymhellion a wnaed yn arolygiadau blaenorol Estyn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd da o ran lleihau gwargedau cyllidebau ysgolion; sicrhau strategaeth glir ac ymrwymiad i leihau lleoedd dros ben; gwella rôl craffu; gwella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion â phroblemau ymddygiad; a chynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae nodau ac amcanion clir gan yr awdurdod ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Ceir lefel dda o gydweithredu rhwng Gwynedd ac awdurdod lleol Ynys Môn i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Hyd yma, fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi cytuno ar ei blaenoriaethau strategol, ac nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol presennol wedi canolbwyntio digon ar effaith gwaith yr holl bartneriaid ar ddeilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae nifer o bartneriaethau sefydledig yn cyfrannu'n helaeth at brofiadau ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn y cyngor a thu hwnt. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau gyda'r bwrdd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau cymorth ieuenctid a darparwyr addysg a hyfforddiant.

Ffurfiwyd consortiwm addysg ôl-16 rhwng ysgolion uwchradd yng Ngwynedd, y cyngor a choleg addysg bellach Llandrillo Menai i ddatblygu addysg ôl-16 ar draws yr ardal. Fodd bynnag, mae cynnydd ers arolygiad ardal Estyn yn 2006 wedi bod yn rhy araf, er y cytunwyd ar drefniadau yn ddiweddar i ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr, gwneud addysg ôl-16 yn fwy cost-effeithiol ac osgoi dyblygu cyrsiau.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cydlynu ystod eang o brofiadau dysgu yn effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod wedi mapio'r ddarpariaeth hon yn briodol. Mae gan y bartneriaeth egwyddorion ac amcanion clir yn y strategaeth 'Gwella Gwynedd gyda'n Gilydd'. Mae ganddi weithdrefnau ar gyfer monitro ac ariannu prosiectau ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys monitro cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol. Lle mae'r awdurdod wedi nodi bod gweithio mewn partneriaeth yn flaenoriaeth gorfforaethol, mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol ar waith sy'n dwyn partneriaid i gyfrif yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson i bob un o'r partneriaethau. Hefyd, nid oes digon o wybodaeth gan y bartneriaeth ynglŷn â sut y dylai fod yn cyfrannu at ddeilliannau pobl ifanc er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni blaenoriaethau strategol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinyddiaeth ariannol gorfforaethol yr awdurdod yn gryf. Mae'r awdurdod yn rheoli adnoddau yn dda er mwyn mynd i'r afael â gostyngiadau cynyddol yn ei gyllideb refeniw. Mae'r broses cynllunio ariannol yn amlygu risgiau, ac yn nodi rhagamcanion yn glir o ran gwariant yr awdurdod. Gwneir penderfyniadau doeth a realistig er mwyn pennu cyllidebau sydd, er yr angen am arbedion, yn galluogi'r awdurdod i gynyddu gwariant mewn meysydd blaenoriaeth corfforaethol. Ar y cyfan, mae gan yr awdurdod hanes llwyddiannus o weithio o fewn ei gyllideb, ac mae rhai cyllidebau addysg fel anghenion dysgu ychwanegol, sydd wedi gorwario yn y gorffennol, bellach mewn trefn.

Mae gwariant yr awdurdod ar addysg yn dangos ei ymrwymiad i'r maes hwn. Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol yw'r drydedd uchaf yng Nghymru. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, bu cynnydd priodol yng nghyllidebau datganoledig ysgolion yn 2012-2013.

Mae'r awdurdod wedi denu cyllid grant sylweddol ar gyfer prosiectau i hyrwyddo cynhwysiant ac i adeiladu ysgolion newydd dros y pum mlynedd nesaf. Bu hanes o lithro sylweddol o ran cwblhau prosiectau cyfalaf, er bod hyn wedi gwella'n ddiweddar.

Er bod maint dosbarthiadau yn fach ar gyfartaledd ar draws y sir, mae rhai ysgolion cynradd mwy a maint canolig yn parhau i honni bod dosbarthiadau yn rhy fawr. Gweithiodd yr awdurdod yn arloesol mewn partneriaeth â'r holl ysgolion cynradd i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy gyllido cynllun 'grant mewnol' ar y cyd, a gaiff ei weinyddu'n deg ac yn dryloyw.

Mae cost gymharol uchel y gwasanaeth addysg yn adlewyrchu cost cynnal ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd bach, a chyfran uchel iawn o leoedd gwag. Beirniadwyd yr awdurdod yn adroddiad arolygu Estyn yn 2009 am lefel uchel y cronfeydd yr oedd ysgolion yn eu cadw ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ddiweddar, penderfynodd y Fforwm Cyllid ar drothwyau priodol ar gyfer gwargedau, gan ddwyn i gyfrif y pedair ysgol yr oedd eu cronfeydd yn uwch na'r trothwy. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi bod yn rhy araf yn ymateb i'r mater hwn, ac mae lleoedd dros ben mewn ysgolion yn parhau'n uchel iawn o gymharu ag awdurdodau eraill.

O ystyried safonau ac ansawdd digonol llawer o'r ddarpariaeth, mae'r gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Clive Phillips | Arolygydd Cofnodol |
| Betsan O'Connor | Dirprwy |
| Helen Morgan Rees | Arolygydd Tîm |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Cefin Campbell | Arolygydd Tîm |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Huw Lloyd Jones | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Aled Maredudd Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert Sully | Arolygydd Cymheiriaid |
| Owen Owens | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.